Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 23/2013

www.cymru.gov.uk

# Addysg Bellach i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymleth sydd yn byw yng Nghymru

# Crynodeb hawdd ei ddarllen



**Teitl yr adroddiad gwreiddiol:**
Darpariaeth addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sydd yn byw yng Nghymru: lefelau'r angen a'r darpariaeth bresennol

# Addysg Bellach i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sydd yn byw yng Nghymru

## Crynodeb hawdd ei ddarllen

| | |
|---|---|
| Ruth Townsley | (Ruth Townsley Research) |
| Stephen Beyer | (Welsh Centre for Learning Disabilities, Prifysgol Caerdydd) |
| Carol Robinson | (Carol Robinson Consulting) |
| Val Williams | (Norah Fry Research Centre, Prifysgol Bryste) |

Cyfieithiad Cymraeg gan Ceri Christian-Jones.

Mae'r lluniau a defnyddiwyd ar gael o CHANGE www.changepeople.co.uk ac Inspired Services www.inspiredservices.org.uk

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Dr Karen Bathgate

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 821628

E-bost: karen.bathgate@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013


ISBN 978 0 7504 9466 3

© Hawlfraint y Goron 2013

# Am y crynodeb hawdd ei ddarllen yma



Mae'r llyfryn hawdd ei ddarllen yma am addysg bellach (AB) ar gyfer pobl ifanc ac anawsterau dysgu cymhleth sy'n byw yng Nghymru.



Ymchwil gymdeithasol
Social research
Number: 23/2013

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


www.cymru.gov.uk

Post-19 Education Provision for Young People with Complex Learning Difficulties Living in Wales: levels of need and current provision

Mae'n grynodeb o adroddiad hirach o'r enw:
'Darpariaeth addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sydd yn byw yng Nghymru: lefelau'r angen a'r darpariaeth bresennol'.



Prif anabledd pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth yw anawsterau dysgu difrifol neu dwys. Mae'r rhan fwyaf o bobl ag anawsterau dysgu cymhleth angen llawer o gefnogaeth. Mae rhai pobl hefyd yn cael llawer o broblemau gyda'u hiechyd.




Addysg bellach yw'r dysgu a wnewch pan fyddwch yn gadael yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd i'r coleg i wneud cyrsiau addysg bellach. Mae rhai pobl ifanc yn mynd i goleg AB lleol yn eu dinas neu tref agosach. Mae rhai pobl yn mynd i ffwrdd i goleg AB preswyl, nail ai yng Nghymru neu yn Lloegr.



Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i wybod beth roedd pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth yn gwneud pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r llywodraeth yn awyddus i wybod faint o bobl ifanc sy'n mynd i'r coleg a pha gymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i fynd i'r coleg.



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i rai ymchwilwyr i'w helpu i ddod o hyd i'r pethau yma. Wnaeth yr ymchwilwyr astudiaeth mawr i gael gwybod mwy am sut y mae addysg bellach yn gweithio ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sy'n byw yng Nghymru.

# Sut cafood yr ymchwil ei wneud?



Fe wnaethom ofyn barn llawer o bobl. Fe wnaethom siarad â:


- Pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth.
- Rhieni a gofalwyr.
- Prifathrawon ysgolion arbennig.
- Pobl sy'n cefnogi myfyrwyr yn y coleg.
- Gweithwyr cymdeithasol a phobl eraill sy'n gweithio i wasanaethau cymdeithasol.
- Pobl sy'n gweithio i elusennau neu sefydliadau gwirfoddol.
- Pobl sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru.



Fe wnaethom edrych ar farnau a syniadau pobl. Yna fe wnaethom ysgrifennu adroddiad hir am beth wnaeth pobl dweud.

Rydym eisiau dweud diolch wrth bawb wnaeth helpu gyda'r ymchwil.

# Beth wnaethom ni darganfod?




Fe wnaethom ddarganfod bod rhai pethau da yn digwydd.




Fe wnaethom hefyd darganfod rhai pethau a gall ei wneud yn haws i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth i fynd i'r coleg, os ydynt eisiau mynd i'r coleg.



Mae'r crynodeb hawdd ei ddarllen yma yn dweud mwy am beth wnaethom ni darganfod.

# Beth mae pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth yn eu gwneud ar ôl gadael ysgol?




Fe wnaethom ddarganfod bod dau allan o bob tri pherson ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth yn mynd i'r coleg ar ôl gadael yr ysgol.  Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yma anawsterau dysgu difrifol. Nid oes llawer o bobl ag anawsterau dysgu dwys yn mynd i'r coleg.



Mae un allan o bedwar o bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sy'n gadael ysgol wedyn yn mynd i ganolfan dydd. Pobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys yw'r rhan fwyaf o'r bobl yma.



Mae nifer bach o bobl ag anawsterau dysgu cymhleth yn cael swyddi neu'n gwneud gwaith gwirfoddol ar ôl iddynt gadael ysgol. Mae hyn yn tua 5 person allan o 100.



Mae nifer bach o bobl ag anawsterau dysgu cymhleth yn defnyddio taliadau uniongyrchol er mwyn dewis gweithgareddau a chymorth eu hunain. Mae hyn yn tua 2 person allan o 100.



Mae'n rhaid i rai pobl ag anawsterau dysgu cymhleth aros adref ar ôl iddynt gadael ysgol. Weithiau maent ar restr aros ar gyfer lle mewn coleg neu ganolfan dydd. Ond weithiau nid oes yna unrhyw beth iddynt wneud yn eu hardal lleol. Mae'n rhaid i tua 8 person allan o 100 aros adref ar ôl iddynt gadael ysgol.

# A yw pobl ag anawsterau dysgu cymhleth sy’n gadael ysgol yn cael y dewisiadau maent eisiau?



Fe wnaethom ddarganfod bod y rhan fwyaf o bobl ag anawsterau dysgu cymhleth difrifol sy’n gadael ysgol yn cael dewis yr opsiwn roeddynt eisiau. Ond hanner o’r wnaethom ddarganfod bod y rhan fwyaf o bobl ag anawsterau dysgu cymhleth dwys cafod hyn.



Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gallu mynd i’r coleg a oedd eu dewis cyntaf. Ac fe gafodd y rhan fwyaf o bobl ifanc y cymorth roeddynt angen i fynd i’r coleg. Ond nid yw pob coleg AB yng Nghymru yn gallu cynnig cyrsiau i bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys.



Fe wnaeth yr ymchwil darganfod bod gan rhai o’r bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth anghenion neu ddymuniadau ar gyfer addysg bellach na chafodd eu cwrdd.


Er enghraifft, roedd rhai pobl ifanc eisiau:



- Mynd i’r coleg, ond dim yn gallu mynd.
- Mynd i’r coleg a oedd ei dewis cyntaf.
- Gneud cwrs llawn amser, nid cwrs rhan amser.
- Mynd i goleg yn agosach i adref.
- Mynd i goleg preswyl.
- Gwneud cwrs cysylltiedig â gwaith, gyda phobl eraill heb anabledd.
- Cael mwy o gefnogaeth gyda’u hanghenion cyfathrebu.
- Cael mwy o gefnogaeth gyda’u hanghenion iechyd.



# Beth fyddai'n gwneud hi'n haws i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth i fynd i'r coleg?




Fe wnaeth yr ymchwil darganfod nid pob person ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth oedd eisiau mynd i'r coleg ar ôl gadael ysgol.

Ond, i'r bobl ifanc sydd eisiau mynd i'r coleg, mae yna rhai pethau a fyddai'n gwneud hi'n haws iddyn nhw a'u teuluoedd:



**1.** Mwy o ddewis lleol o golegau a chyrsiau.




**2.** Gwybodaeth clir am golegau a chyrsiau, a sut maent yn gallu cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc.



**3.** Cyrsiau a fydd yn helpu pobl ifanc i ddysgu’r sgiliau byddant angen yn y dyfodol.



**4.** Yr opsiwn o gwrs preswyl os dyna mae pobl ifanc eisiau.



**5.** Cyfleoedd i ddysgu a chymysgu gyda phobl ifanc eraill sydd gyda, neu heb anableddau.



**6.** Cymorth da ar gyfer dysgu, cyfathrebu, gofal personol ac anghenion iechyd.



**7.** Bod yn gallu cael ffisiotherapi, therapi lleferydd ac iaith, a therapïau eraill yn y coleg.



**8.** Cynllun dysgu unigol sy'n cynnwys amcanion bywyd person y tu hwnt i goleg.




**9.** Trafnidiaeth am ddim i ac adref o'r coleg.




**10.** Peidio â gorfod poeni os bydd lle yn y coleg yn cael ei chyllido.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?



Ar ddiwedd yr ymchwil, rydym wedi gwneud rhestr o syniadau a elwir yn argymhellion. Mae'r rhain yn pethau i Lywodraeth Cymru, cynghorau lleol a phobl eraill i wneud, i feddwl am ac i siarad am.




Rydym yn gobeithio bydd y pethau yma yn helpu pobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth i fynd i'r coleg os ydynt eisiau mynd.


Fedrwch cael y rhestr o'r argymhellion yn yr adroddiad llawn ac yn yr adroddiad cryno, drwy glicio ar y linc ar ddiwedd y tudalen yma.



Os rydych eisiau darganfod mwy am beth mae Llywodraeth Cymru yn gwneud am addysg bellach i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth, fedrwch ddanfon e-bost i:

AdditionalLearningNeedsBranch@wales.gsi.gov.uk

# Linciau i adroddiadau eraill am yr ymchwil


Dadansoddi ar gyfer Polisi
Ymchwil gymdeithasol
Social research
Number: 23/2013
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Post-19 Education Provision for Young People with Complex Learning Difficulties Living in Wales: levels of need and current provision

Mae'r llyfryn yma yn grynodeb hawdd ei ddarllen o adnodd hir o'r enw 'Darpariaeth addysg ôl-19 oed i bobl ifanc ag anawsterau dysgu cymhleth sydd yn byw yng Nghymru: lefelau'r angen a'r darpariaeth bresennol'



Fedrwch lawrllwytho'r adroddiad llawn, a'r adroddiad cryno o safle we cyhoeddiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/?lang=en

Mae'r lluniau a ddefnyddiwyd yn y crynodeb hawdd ei ddarllen yma o

CHANGE www.changepeople.co.uk

ac Inspired Services www.inspiredservices.org.uk